# PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 6 Gorffennaf 2023**

| | |
|---|---|
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Thomas** |
| **Cynghorwyr**: | N.Goldup-John, J.Henton, J.Jones, C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes a/ac R.Wood |
| **Ymddiheuriadau'r Cynghorwyr:** | R.Phillips, S.H.Reynolds a/ac D.Whitelock |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | L.Newman |
| **Ymddiheuriadau'r Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | A.Amor, M. Caddick |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | I.Guy, H.Lervy, H.Lewis, C.Millis, A.Thomas, K.Jones, A.Spooner-Cleverly, S.McCluskie, K.Windsor-Brown a/ac P.Chivers |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 7 a 9 o Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Dim.

3. **<u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>**

Hwb Cyflogadwyedd yng Nghanolfan Siopa Aberafan.

Rhoddodd y swyddog drosolwg o'r adroddiad fel y manylir ym mhecyn yr agenda a ddosbarthwyd i Fwrdd y Cabinet.

Cefnogodd aelodau'r argymhelliad a dywedwyd ei fod yn iawn i gynnal presenoldeb yn y ganolfan siopa lle mae nifer o ymwelwyr. Diolchodd aelodau i swyddogion a staff am eu gwaith wrth wneud yr Hwb yn llwyddiant, ond gofynnwyd a oedd cynlluniau i agor Hwb tebyg yng Nghastell-nedd i wasanaethu cymunedau Castell-nedd a Chwm Tawe. Cadarnhaodd swyddogion fod y posibilrwydd o agor hybiau pellach yn llyfrgelloedd Castell-nedd a Phontardawe'n cael ei archwilio. Os caiff hwn ei gymeradwyo, bydd yr hybiau'n debyg i'r gwasanaethau a gynhigir yn Hwb Port Talbot.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Dangosyddion Perfformiad Chwarter 4

Cydnabu'r aelodau bod absenoldebau'n broblem leol a hefyd yn broblem genedlaethol. Mae angen monitro presenoldeb ysgol gan fod nifer o ddisgyblion wedi colli cryn dipyn o amser yn yr ysgol o ganlyniad i'r pandemig; efallai bydd hwn yn effeithio ar grwpiau o ddisgyblion, yn enwedig y rheini sy'n astudio ar gyfer arholiadau ac yn eistedd arholiadau ar hyn o bryd.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth drosolwg o waharddiadau sydd wedi cyfrannu at y problemau gyda phresenoldeb. Mae gan Gastell-nedd Port Talbot lefel uchel o waharddiadau gyda 677 o ddisgyblion yn derbyn gwaharddiad cyfnod penodol y flwyddyn academaidd hon, gan golli tua 3200 o ddiwrnodau o ddysgu, ac mae hynny wedi ychwanegu at y broblem gyda phresenoldeb. Mae'r holl ysgolion yn gweithio tuag at ddod â phlant yn ôl i'r ysgol, ond cydnabuwyd bod hefyd angen cefnogaeth ar deuluoedd gan fod gweithgareddau i deuluoedd hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu at ddiffyg presenoldeb.

Mewn perthynas â gwaharddiadau parhaol, cynhelir ymgynghoriadau ynghylch cynnig i ffurfio Panel Cymru Gyfan. Byddai'r panel o arbenigwyr yn trafod a all plentyn ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn nifer o waharddiadau parhaol. Mae canlyniadau cadarnhaol a negyddol i'r cynnig hwn, byddai'n sicrhau ymagwedd Cymru Gyfan ond byddai

pwysau ychwanegol ar gyrff llywodraethu. Caiff rhagor o wybodaeth ei darparu pan fydd ar gael.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod cysylltiad rhwng gwaharddiadau a phresenoldeb. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae 277 o ddisgyblion wedi cael eu gwahardd deirgwaith neu bedair gwaith. I fynd i'r afael â hyn, mae cynlluniau i dimau o swyddogion fynd i ysgolion uwchradd ym mis Medi i gwrdd ag o leiaf 10 o blant sydd â phresenoldeb o 80% neu lai o bob ysgol. Bydd swyddogion o'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion a'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio gyda disgyblion ac yn eu cefnogi gydag unrhyw broblemau a all gyfrannu at eu habsenoldeb. Adroddwyd am yr ymagwedd hon i NAASH ac maent yn ei chefnogi. Y gobaith yw, gan fod y swyddogion yn annibynnol o gymuned yr ysgol, byddant yn gallu gweithio gyda phlant i'w cefnogi a dysgu gwersi o ran yr hyn y gallai Castell-nedd Port Talbot ei wneud yn wahanol. Caiff canlyniad y gwaith hwn ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn.

Mae llawer o waith yn digwydd y tu ôl i'r llenni yng Nghastell-nedd Port Talbot i wella presenoldeb, fodd bynnag, nid oes un ateb i bawb a bydd yn cymryd amser i'r gwelliannau fod yn weladwy. Cydnabuwyd bod disgyblion o flwyddyn naw wedi cael eu heffeithio'n wael gan y cyfnod o ysgol a gollwyd yn ystod y pandemig. Soniodd y Pennaeth Gwasanaeth am nifer o feysydd sydd ar fin newid, megis; newidiadau i arholiadau, cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru, diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r gallu i recriwtio staff o safon ac yn ogystal â'r newidiadau hyn, nodwyd bod angen cymorth ar deulu'r plentyn ac nid y plentyn yn unig.

Yn dilyn craffu, nododd yr aelodau'r eitem er gwybodaeth.

## 4. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd yr eitem hon.

## 5. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys

**CADEIRYDD**